

Dyfed-Powys Mwy Diogel

2014-15

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys



COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

Cynnwys:


Rhagair y Comisiynydd	2
Metrigau Perfformiad Allweddol	3
Atal ac ymdrin â digwyddiadau a throseddau	5
Diogelu pobl sy'n agored i niwed	7
Dwyn pobl i gyfiawnder	9
Gwella mynediad at wasanaethau plismona	11
Sicrhau safonau proffesiynoldeb uchel	13
Gwario'n ddoeth	15

Rhagair y Comisiynydd

Rwyf ar ddiwedd fy nhrydedd flwyddyn fel Comisiynydd Heddlu a Throseddau. Rwyf wedi gwrandao'n astud ar yr hyn y mae pobl yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Powys a Sir Benfro wedi dweud wrthyf dros y blynyddoedd hynny.

Mae gan fy ngwaith i helpu'n cymunedau ddau nod: lleihau cost troseddau, yn gorfforol ac yn emosiynol; a, lleihau cost plismona. Mae'r adroddiad hwn yn esbonio'r gwaith hwnnw.

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn o gyflenwi. Rwyf wedi cyflenwi technoleg symudol newydd. Bydd hyn yn rhyddhau 100,000 o oriau ychwanegol ar gyfer dyletswyddau rheng flaen. Rwyf wedi cyflenwi arbedion o £3.7 miliwn, sydd wedi fy ngalluogi i ysgafnhau'r baich ar drethdalwyr. Rwyf wedi torri'r praesept o 5% ar gyfer 2015/16.



Rwyf wedi cyflenwi gwell cyfiawnder. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cofnodi mwy o droseddau ac yn defnyddio llai o rybuddion nag erioed. Rydyn ni'n mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fwy cadarn. Mae dioddefwyr y troseddau mwyaf trallodus, megis troseddau domestig neu rywiol, yn cael cymorth gan wasanaethau arbenigol rwyf i'n eu comisiynu.

Mae gen i fwy i'w wneud. Rydyn ni'n cychwyn rhaglen fuddsoddi £15 miliwn ar gyfer ein hadeiladau, gan adnewyddu gorsafoddedd ledled ein siroedd ac adeiladu dalfa newydd yn Llanelli. Bydd dwy flynedd o waith caled i ddatrys y prosiect menter ariannu breifat Rhydaman yn arbed dros £3 miliwn.

Mae angen gwella ein hamserau ymateb a thrin galwadau. Hoffwn weld llai o rengoedd, rhengoedd wedi'u symleiddio, a mwy o swyddogion symudol. Gallai ein system cyfiawnder troseddol gystadlu ag unrhyw nofel gan Gogol ar gyfer biwrocratiaeth ryfedd. Mae'n rhaid i ni ei wella. Mae'n rhaid i ni fynnu diwygio pellach gan lywodraeth ganolog. Mae'n rhaid i ni ymddiried ym mhobl i gymryd rhan mewn cyfiawnder a rheoli eu cymunedau eu hunain.


Mae digwyddiadau wedi'u cofnodi wedi syrthio o 4% o gymharu â 2013/14. Mae Dyfed-Powys yn fwy diogel nag erioed. Mae gan yr ardal y swyddogion mwyaf ymroddedig yn y byd. Mae ganddi'r bobl fwyaf gwydn, ymarferol, diffwdan yn y byd.

Flwyddyn nesaf, chi, y cyhoedd, fydd yn dewis eich Comisiynydd Heddlu a Throseddau newydd. Braint i mi oedd gwasanaethu fel y Comisiynydd cyntaf. Hoffwn ddiolch i bawb, yn enwedig y rhai sy'n gwirfoddoli i ni, am eu gwaith caled.

Christopher Salmon
Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys


Metrigau Perfformiad Allweddol 2012/13 i 2014/15

Troseddau Cofnodedig



Mae troseddau cofnodedig wedi parhau'n sefydlog dros y tair blynedd diwethaf gyda chyfanswm y troseddau ar gyfer 2014/15 yn 19,410.


Ymddygiad Gwrthgymdeithasol



23%

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi syrthio i 18,430 digwyddiad o 23,910 yn 2012/13.


Defnydd o Rybuddion



Mae'r defnydd o rybuddion heddlu wedi syrthio 9.6% ers 2012/13¹.

Nifer y swyddogion heddlu


Mae nifer y swyddogion heddlu wedi codi o 1133 yn 2013 i 1171 yn 2015.



¹ Mae'r ffigur yn debygol o newid gan fod 6% o'r troseddau a gofnodwyd yn 2013/14 dal yn destun ymchwiliad.


Metrigau Perfformiad Allweddol 2014/15

Troseddau cofnodedig



Cyfanswm y troseddau a gofnodwyd yn 2014/15 oedd 19,410. Mae hyn yn gynnydd o 800 trosedd o 2013/14.


Ymddygiad Gwrthgymdeithasol



 12%

Mae adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi syrthio i 18,430 digwyddiad o 21,033 yn 2013/14.

Defnydd o rybuddion



Mae'r defnydd o rybuddion heddlu wedi syrthio 6.9% ers 2013/14².

Nifer y swyddogion heddlu

Mae nifer y swyddogion heddlu wedi cynyddu o 1163 yn 2014 i 1171 yn 2015.



Cost plismona

£3.78

Dyma gost plismona fesul person fesul wythnos yn Nyfed-Powys. Y gost hon yw'r rhataf yng Nghymru.

² Mae'r ffigur yn debygol o newid gan fod 6% o'r troseddau a gofnodwyd yn 2013/14 dal yn destun ymchwilid.

1

Atal ac ymdrin â digwyddiadau a throseddau

Mae atal trosedd yn fwy effeithiol nag ymdrin ag effeithiau trosedd. Mae'r [Cynllun Heddlu a Throseddau](#) yn amlinellu fy ymrwymiad i'r flaenoriaeth hon.


Beth rwyf wedi gwneud:

Mae cyhoedd Dyfed-Powys wedi dweud wrthyf droeon eu bod nhw eisiau gweld plismona cymunedol gweladwy. Gan hynny, rwyf wedi blaenoriaethu plismona rheng flaen. Mae nifer y swyddogion heddlu yn Nyfed-Powys wedi cynyddu i 1,171. Mae ardaloedd gwledig wedi derbyn blaenoriaeth a phwysleisir recriwtio pobl leol ar gyfer plismona lleol.

Mae nifer y SCHH yn Nyfed-Powys yn parhau ar 145 (cyfwerth â llawn amser). Mae SCCH yn parhau i chwarae rôl hanfodol mewn cymunedau ledled Dyfed-Powys.


Cododd arolygiad Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi (AHM) ym mis Tachwedd mewn perthynas â Chywirdeb Data Trosedd bryderon o ran sut y mae troseddau'n cael eu cofnodi yn Nyfed-Powys. Dangosodd sampl o 109 digwyddiad y dylai 73 trosedd fod wedi'u cofnodi. Dim ond 50 trosedd oedd wedi'u cofnodi.

Rwyf wedi gwneud hi'n glir i'r Prif Gwnstabl bod yn rhaid cofnodi troseddau'n gywir a thryloyw. O ganlyniad i'r ymagwedd newydd tuag at gofnodi troseddau'n gywir, ynghyd â chanllawiau newydd gan y Swyddfa Gartref, mae troseddau cofnodedig wedi codi o 800 yn 2014/15, gyda chynnydd sylweddol yn chwarter olaf y flwyddyn:




Troseddau cofnodedig, 2014/15

Rwyf nawr yn fwy hyderus bod troseddau'n cael eu cofnodi'n gywir pan maen nhw'n digwydd. Serch hyn, mae gan Ddyfed-Powys y nifer isaf o droseddau cofnodedig ond un yng Nghymru a Lloegr, fesul 1,000 o'r boblogaeth (o fis Rhagfyr 2014):



Troseddau fesul 1,000 o'r boblogaeth

Cyfraddau ymddygiad gwrthgymdeithasol yw'r 15fed uchaf yng Nghymru a Lloegr. Mewn ymateb i hyn, rwyf wedi comisiynu gwasanaeth ymddygiad gwrthgymdeithasol newydd. Mae lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd a adroddir wedi syrthio o 12% o gymharu â 2013/14:



Ymddygiad gwrthgymdeithasol a riportiwyd 2014/15

Fy mlaenoriaethau ar gyfer 2015/16

Byddaf yn parhau i ganolbwyntio ar blismona rheng flaen a sicrhau bod swyddogion yn treulio mwy o amser ar y bît yn cadw'n cymunedau'n ddiogel.

Byddaf yn adolygu sut y mae gwasanaethau plismona gwledig yn cael eu cyflwyno a'u cefnogi.

2 Diogelu pobl sy'n agored i niwed


Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i ddiogelu pobl yn ein cymunedau sy'n agored i niwed. Mae'r [Cynllun Heddlu a Throsedd](#) yn amlinellu fy ymrwymiad i'r flaenoriaeth hon.

Beth rwyf wedi gwneud:

Bydd arian y Weinyddiaeth Gyfiawnder am gymorth i ddioddefwyr trosedd yn trosglwyddo i mi yn Ebrill 2015. Roedd y gwasanaeth cymorth blaenorol wedi'i leoli yng Nghaerdydd ac roedd yn cynnig cymorth dros y ffôn i ddioddefwyr mathau penodol o droseddau. Rwyf wedi comisiynu Cymorth i Ddioddefwyr ar gyfer darparu gwasanaeth lleol a fydd yn cael ei leoli ochr yn ochr â'r Uned Gofal Tystion yng Nghaerfyrddin. Rwyf wedi ehangu cwmpas y gwasanaeth i gynnwys pob dioddefydd trosedd, gan gynnwys dioddefwyr twyll. Mae hyn yn golygu y bydd dioddefwyr nad oedd yn gymwys ar gyfer cymorth o'r blaen bellach yn cael mynediad at gymorth ac arweiniad. Bydd y gwasanaeth yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Sadwrn.

Trwy grant gan y Swyddfa Gartref, ariannais uned brysbennu sy'n canolbwyntio ar ddarparu cymorth arbenigol i bobl sy'n dioddef trallod meddwl. Rwyf wedi ei gwneud hi'n glir mai cell mewn dalfa yw'r lle anghywir ar gyfer unrhyw un sy'n dioddef salwch meddwl. Bu cryn ostyngiad yn nifer y carchariadau Adran 136 (iechyd meddwl) ers sefydlu'r uned. Byddaf yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod pobl sy'n dioddef materion iechyd meddwl yn cael eu hasesu fel cleifion ac nid troseddwy.


Bu cynnydd mewn troseddau cofnodedig mewn perthynas â throseddau rhywiol a cham-drin/trais domestig. Mae'r cynnydd yn rhannol oherwydd riportio achosion hanesyddol, ac yn rhannol oherwydd cynnydd o ran hyder y bydd yr heddlu'n ymateb.



Digwyddiadau a throseddau cam-drin domestig a gofnodwyd yn 2014/15

Er mwyn cynorthwyo'r heddlu i ymateb i'r cynnydd yn nifer y digwyddiadau trais a cham-drin domestig, rwyf wedi comisiynu gwasanaeth cymorth trais domestig. Mae'r

gwasanaeth hefyd yn ceisio lleihau'r perygl a chynyddu diogelwch y rhai sy'n profi cam-drin domestig. Byddaf yn adolygu canlyniadau'r gwasanaeth ym mis Medi 2015.



Troseddau rhywiol a gofnodwyd 2014/15

Mewn ymateb i'r cynnydd yn nifer y troseddau rhywiol sy'n cael eu riportio a'r diffyg gwasanaethau cymorth arbenigol, ariannais ddwy ganolfan cymorth trais rhyw yn y Drenewydd ac Aberystwyth sy'n darparu cymorth lleol i ddioddefwyr trais neu ymosodiad rhywiol. Hefyd, rwyf wedi parhau i ariannu'r Ganolfan Gyfeirio Ymosodiadau Rhyw yng Nghaerfyrddin sy'n darparu archwilio arbenigol a chymorth i ddioddefwyr trais ac ymosodiad rhywiol.

Cynhaliodd AHEM adolygiad o bolisiau a gweithdrefnau diogelu plant o fewn Heddlu Dyfed-Powys ym mis Chwefror 2015. Ers hynny, mae'r heddlu wedi adolygu ei bolisiau a'i weithdrefnau diogelu plant ac wedi cynyddu nifer y swyddogion yn y tîm Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed. Un mater a nodwyd yw'r diffyg cymorth arbenigol sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer plant sy'n cael eu hadrodd fel unigolion coll neu unigolion a allai fod mewn perygl.

Rwyf dal yn poeni am y diffyg gwasanaethau arbenigol sydd ar gael ar gyfer pobl sy'n agored i niwed yn Nyfed-Powys. Mae diffyg gwelyau iechyd meddwl ledled yr ardal heddlu, a does dim llety diogel ar gyfer pobl ifainc. Rwyf wedi parhau i siarad â'n partneriaid yn y Byrddau Iechyd a'r Awdurdodau Lleol i sicrhau ymagwedd gydweithiol tuag at gefnogi pobl sy'n agored i niwed yn ein cymunedau.

Fy mlaenoriaethau ar gyfer 2015/16

Byddaf yn ariannu gwasanaeth sy'n cynnig ôl-drafodaeth a chyfyngu ar gyfer plant a phobl ifainc y derbyniwyd adroddiadau eu bod ar.


Byddaf yn adolygu'r lefel gwasanaeth a ddarperir i bob dioddefydd trosedd ac yn sicrhau bod cymorth priodol ar gael i bob dioddefydd.

3 Dwyn pobl i gyfiawnder

Yn allweddol ar gyfer atal trosedd yw sicrhau bod y rhai sy'n cyflawni troseddau'n cael eu dwyn i gyfiawnder. Mae'r [Cynllun Heddlu a Throsedd](#) yn amlinellu fy ymrwymiad i'r flaenoriaeth hon.


Beth rwyf wedi gwneud:

Yn hanesyddol, roedd lefel y rhybuddion heddlu'n sylweddol uwch yn Nyfed-Powys na heddluoedd eraill yng Nghymru a Lloegr. Gofynnais i'r Prif Gwnstabl adolygu sut y mae rhybuddion yn cael eu defnyddio. Mae'r defnydd o rybuddion wedi syrthio 6.9% dros y 12 mis diwethaf:



Defnydd o rybudd fel canlyniad gwaredu 2012/13 – 2014/15


Er mwyn craffu ymhellach ar y defnydd priodol o rybuddion, rwy'n rhedeg Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys annibynnol. Bu gwaith y panel yn ffactor allweddol ar gyfer gwella cyfraddau rhybuddio priodol yn ystod 2014/15. Fodd bynnag, mae angen gwelliant pellach a bydd y panel yn parhau i graffu a gwneud argymhellion yn 2015/16.



Adolygiad y Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys o rybuddion yn 2014/15

Mae ansawdd ffeiliau'n ffactor hollbwysig o ran ceisio sicrhau erlyniad llwyddiannus. Rwyf wedi mynegi pryderon mewn perthynas ag amrywiadau mewn ansawdd ffeiliau

ledled yr Heddlu. Rwyf nawr yn craffu, ar sail fisol, ar ansawdd ffeiliau a gwybodaeth am ganlyniadau er mwyn sicrhau cysondeb a chywirdeb:



Canran ffeiliau gwrandawriad cyntaf "da" 2014/15

Rwyf nawr yn cadeirio'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol. Nod y Bwrdd yw gwella gwaith ar draws yr asiantaethau partner. Er mwyn galluogi hyn, rwyf wedi ariannu ymarfer proses mapio ledled y system cyfiawnder troseddol yn Nyfed-Powys. Bwriad canlyniadau'r ymarfer hwn yw llunio system cyfiawnder troseddol mwy effeithiol ac amserol ar draws ein hardal heddlu.

Rwyf wedi parhau i graffu ar ddata canlyniadau troseddau. O fis Gorffennaf 2015, bydd data canlyniadau cenedlaethol yn cael ei gyhoeddi i'm galluogi i gymharu cyfraddau canlyniadau Dyfed-Powys â rhai heddluoedd eraill. Byddaf yn cyhoeddi'r data cymharol hwn ar wefan SCHTh.

Fy mlaenoriaethau ar gyfer 2015/16

Byddaf yn canolbwyntio ar wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y system cyfiawnder troseddol ledled Dyfed-Powys.

Byddaf yn adolygu'r defnydd o erlyniadau a arweinir gan yr heddlu a'u heffeithiolrwydd, gyda golwg ar eu hehangu.

4

Gwella mynediad at wasanaethau plismona

Mae sicrhau mynediad at wasanaethau plismona'n hanfodol ar gyfer hyder cymunedol. Mae'r [Cynllun Heddlu a Throsedd](#) yn amlinellu fy ymrwymiad i'r flaenoriaeth hon.


Beth rwyf wedi gwneud:

Cynhaliais adolygiad o'm hystadau, gan ganolbwyntio ar gyflwyno cyfleusterau modern, priodol a hygyrch. Canfu'r adolygiad bod nifer o orsafoedd heddlu mewn cyflwr gwael, yn gostus i'w cynnal, ac yn aml yn y lleoliad anghywir. Ar gyfer gorsafoedd nad ydynt bellach yn ddichonadwy, rwy'n gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a chynghorau tref er mwyn nodi lleoliadau amgen addas. Bydd rhaglen adnewyddu'n cychwyn fis Gorffennaf 2015.

Mae plismona ardal heddlu sy'n cwmpasu 52% o Gymru'n her. Er mwyn deall yr heriau hynny'n well, comisiynais a chyhoeddais "Cyswllt Gwledig", yr adolygiad academaidd cyntaf o blismona gwledig yng Nghymru. Roedd yr adolygiad annibynnol hwn yn edrych ar anghenion cymunedau gwledig a barn swyddogion heddlu gwledig. Y canfyddiadau ac argymhellion allweddol oedd:

- Gwerth swyddogion heddlu, SCCH a Chwnstabiliaid Gwirfoddol cymunedol;
- Datblygu a chadw "gwybodaeth wedi'i leoli" o fewn y gymuned;
- Pwysigrwydd gwneud penderfyniadau'n lleol.

Mae'r pwynt cyswllt cyntaf gyda'r heddlu ar gyfer nifer o bobl drwy'r rhif brys 999 neu'r rhif difrys 101. Mae anfodlonrwydd cyhoeddus sylweddol â'r rhifau 999 ac 101. Mae'n glir bod problemau sylfaenol yn parhau sydd angen eu datrys fel mater o frys. Ni lwyddodd yr amserau ymateb ar gyfer galwadau brys wedi i fodloni lefel targed yr heddlu o 90% yn 2014/15:



Canran y galwadau ymateb syth a fynychwyd o fewn 20 munud

Mae amserau ymateb yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin wedi bodloni neu ragori ar y targed. Amserau ymateb yng Ngheredigion a Phowys sy'n destun pryder. Byddaf yn sicrhau bod yr heddlu'n adolygu trin galwadau ac ymateb yn ddi-oed.

Mae'r arolwg trosedd diweddaraf ar gyfer Cymru a Lloegr yn dangos bod hyder cyhoeddus yn Heddlu Dyfed-Powys yn parhau'n uchel:

Arolwg Trosedd ar gyfer Cymru a Lloegr: % yr ymatebwyr sy'n cytuno:	Gwaelodlin: Ion-Rhag 2012			Blwyddyn yn gorffen Mawrth 14		
	%	Safle C a LI	%	Safle C a LI	%	Safle C a LI
Bod yr heddlu yn Nyfed-Powys yn deall y materion sy'n effeithio ar y gymuned hon:	76.3%	5 ^{ed}	81.4%	1 ^{af}	5.1%	↑ 4
Bod yr heddlu yn Nyfed-Powys yn ymdrin â'r pethau sy'n bwysig i bobl yn y gymuned hon:	69.7%	2 ^{il}	69.4%	3 ^{ydd}	-0.3%	↓ 1
Gan gymryd pob dim i ystyriaeth, mae gen i hyder yn yr heddlu yn yr ardal hon:	79.4%	7 ^{fed}	79.7%	6 ^{ed}	0.3%	↑ 1
Canran sy'n credu bod yr heddlu'n gwneud gwaith da neu ardderchog:	65.0%	10 ^{fed}	67.5%	5 ^{ed}	2.5%	↑ 5

Fy mlaenoriaethau ar gyfer 2015/16

Byddaf yn gwella ac yn rhesymoli ystadau'r heddlu, buddsoddi lle bo'n briodol er mwyn gwella mynediad cyhoeddus i orsafoedd heddlu a swyddogion heddlu.


Byddaf yn canolbwyntio fy ymdrechion ar welliant parhaus o'r gwasanaeth brys 999 a'r gwasanaeth difrys 101.

5 Sicrhau safonau proffesiynoldeb uchel

Mae trin pobl â pharch ac urddas, yn arbennig ar adeg pan maen nhw'n agored i niwed, yn hollbwysig. Mae'r [Cynllun Heddlu a Throsedd](#) yn amlinellu fy ymrwymiad i'r flaenoriaeth hon.

Beth rwyf wedi gwneud:

Yn hanesyddol, mae cwynion am yr heddlu wedi'u trin gan yr heddlu eu hunain. Roedd achosion yn cymryd gormod o amser i'w datrys ac roedd achwynyddion yn ddrwgdybus iawn ynghylch tegwch a thryloywder y broses. Derbyniodd fy swyddfa lefel sylweddol o gwynion am Heddlu Dyfed-Powys yn 2014/15:



Lefel pryderon SCHTh 2014/15

Mewn ymateb, rwyf wedi cyflwyno Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar wella'r ffordd y mae Heddlu Dyfed-Powys yn trin pryderon a chwynion. Bydd pob cynw cychwynnol yn cael ei drin drwy'r Swyddfa sy'n cael ei staffio ar y cyd gan Heddlu Dyfed-Powys a'm swyddfa i. Mae'r ymagwedd ar y cyd arloesol hon wedi'i hanelu at ddatrys cwynion yn gynnar a sicrhau mai dim ond yr achosion mwyaf difrifol sy'n cael eu trin gan yr Adran Safonau Proffesiynol.

Rwyf hefyd wedi sefydlu Panel Preswylwyr Annibynnol i adolygu cwynion sydd wedi cau. Mae'r Panel Preswylwyr wedi craffu'n annibynnol ar 24% o'r holl gwynion heddlu sydd wedi cau er mwyn sicrhau yr oedd y canlyniadau'n briodol ac adrodd yn ôl i'r heddlu ar feysydd ar gyfer gwella.

Mae fy nghynllun heddlu a throseddau'n nodi'n glir bod yn rhaid i swyddogion heddlu, SCCH a staff heddlu Dyfed-Powys gynnal y safonau proffesiynoldeb uchaf. Cyflwynwyd "Safon Dyfed-Powys" yn 2014. Mae'n anelu i sicrhau bod pob swyddog ac

aelod staff yn portreadu delwedd broffesiynol i gyhoedd a chymunedau Dyfed-Powys. Hefyd, mae'n pwysleisio pwysigrwydd cywirdeb personol a phroffesiynol.

Cynhaliais 12 diwrnod "Eich Llais" yn 2014/15. Mae'r diwrnodau hyn yn rhoi cyfle i'r cyhoedd siarad yn uniongyrchol â mi a chodi cwynion neu faterion sy'n effeithio arnyn nhw neu eu cymunedau. Yn ogystal, rwyf wedi ymweld a siarad ag ysgolion, busnesau, gwyliau a sioeau, awdurdodau a chynghorau lleol a sefydliadau trydydd sector. Mae eu lleisiau'n parhau i lunio a dylanwadau ar fy mlaenoriaethau ar gyfer Dyfed-Powys.

Lleoliad	Dyddiad
Llanymddyfri	Ebrill 2014
Tyddewi	Mai 2014
Aberaeron	Mai 2014
Y Trallwng	Mehefin 2014
Aberdaugleddau	Medi 2014
Y Gelli Gandryll	Hydref 2014
Rhydaman	Hydref 2014
Aberteifi, Castellnewydd Emlyn	Tachwedd 2014
Neyland, Doc Penfro, Saundersfoot	Ionawr 2015
Castellnewydd Emlyn, Llandysul, Llanbedr Pont Steffan	Chwefror 2015
Llanandras a Threfyclo	Mawrth 2015
Llanelli	Mawrth 2015

Diwrnodau "Eich Llais", 2014/15

Rwyf wedi trefnu 12 diwrnod "Eich Llais" arall ar gyfer 2015/16, gyda chyfarfodydd eisoes wedi'u cadarnhau ar gyfer:

- Aberystwyth,
- Aberhonddu/Llanfair-ym-Muallt,
- Cei Newydd/Aberaeron,
- Rhydaman/Llandeilo/Llanymddyfri,
- Hwlfordd/Aberdaugleddau
- Y Drenewydd.

Fy mlaenoriaethau ar gyfer 2015/16

Byddaf yn gwerthuso effaith y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus ac yn cyhoeddi'r canlyniadau.

Byddaf yn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am ymddygiad, proffesiynoldeb a chywirdeb pob swyddog ac aelod staff.


6

Gwario'n ddoeth

Rydyn ni'n wynebu her ariannol mawr, ond hefyd cyfle i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflwyno'n effeithlon. Mae'r [Cynllun Heddlu a Throsteddu](#) yn amlinellu fy ymrwymiad i'r flaenoriaeth hon.

Beth rwyf wedi gwneud:

Yr her allweddol oedd gwneud arbedion ariannol heb effeithio ar wasanaethau plismona rheng flaen. Cyflwynwyd y rhaglen 'Y Cyhoedd Yn Gyntaf', gan arbed £3 miliwn y flwyddyn. Cyflawnwyd hyn gan gynyddu nifer y swyddogion heddlu yn 2014/15. Roedd y ffocws ar symleiddio gwasanaethau cymorth sifilaidd ac mae wedi arwain at lawer llai o gostau gweithwyr:



Costau staff heddlu 2014/15


Nododd adolygiad o brosesau ledled yr heddlu lefelau sylweddol o ddyblygu a gwastraff. Er mwyn datrys y mater hwn, rwyf wedi buddsoddi mewn technoleg ddigidol. Mae hyn wedi'i weithredu ar draws y rhan fwyaf o'r heddlu yn ystod 2014/15, a bydd pob swyddog yn derbyn llyfrau nodiadau electronig erbyn canol 2015. Bydd fy muddsoddiad yn cyflwyno 100,000 o oriau ychwanegol ar y bît yn 2015/16. Mae hyn yn fudd sylweddol i gymunedau ledled Dyfed-Powys.

Mae AHM yn cyhoeddi proffiliau gwerth am arian yn flynyddol. Mae perfformiad Dyfed-Powys yn cael ei gymharu â'i heddluoedd mwyaf tebyg. Cyhoeddwyd y proffiliau gwerth am arian diweddaraf ym mis Awst 2014 a chofnodwyd bod Dyfed-Powys, o gymharu â'i heddluoedd mwyaf tebyg:

- Yn gwario cyfran mwy o'i arian ar weithgareddau rheng flaen gweithredol;
- Yn gwario cyfran mwy o'i arian ar swyddogaethau cymorth rheng flaen;

- Yn gwario cyfran llawer is o'i arian ar swyddogaethau cymorth busnes.

Ers Ebrill 2013, rwyf wedi gwario cyfanswm o £2,225,270 ar gomisiynu gwasanaethau i fodloni blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throsedd. Yn 2014/15 ymrwymais £1,249,155 i wasanaethau wedi'u comisiynu. Mae prosiectau a gwasanaethau wedi defnyddio arian o'r ddwy flynedd ac mae'r siart isod yn dangos y gwariant cyfunol ar gyfer y ddwy flynedd:



Gwariant cyfunol ar wasanaethau wedi'u comisiynu, 2013/15

Mae'r gwariant mwyaf sylweddol wedi'i dargedu at atal a mynd i'r afael â throsedd a diogelu pobl sy'n agored i niwed; mae hyn yn cynnwys gwasanaethau megis y Gwasanaeth Ymyrraeth Cyffuriau, gwasanaeth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Gwalia, gweithwyr cymorth cam-drin domestig, yr Uned Brysbennu Iechyd Meddwl a llawer o brosiectau llai gan gynnwys y rhai a wobrwyyd drwy Gronfa'r Comisiynydd.

Torraais y praesept Treth Gyngor ar gyfer 2015/16 o 5%, gan leihau'r swm y mae trethdalwyr ledled Dyfed-Powys yn talu am eu gwasanaethau plismona.

Fy mlaenoriaethau ar gyfer 2015/16

Byddaf yn parhau i ganolbwyntio ar yrru allan gwastraff a chyflwyno gwerth am arian, gyda blaenoriaeth barhaus ar wasanaethau rheng flaen.

Byddaf yn adolygu pob gwasanaeth sydd wedi'i gomisiynu ac yn gwerthuso'r posibilrwydd ar gyfer partneriaethau pellach sy'n medru cyflwyno mantais o ran cost.